Rhagair gan y Gweinidog

Mae deng mlynedd o ddiwygio a sefydlogrwydd economaidd o dan y Llywodraeth hon wedi trawsnewid gwaith a chyfle ym Mhrydain. Heddiw, nid fel galwadau syml i uno i sicrhau newid yr ystyrir cyflawni cyflogaeth lawn a diddymu tlodi ymhlith plant, ond fel uchelgeisiau gwirioneddol y mae pobl yn disgwyl eu bod yn cael eu gwireddu.

Os ydym am lwyddo yn yr amcanion hyn – mewn cyfnod ble mae grymoedd newidiadau economaidd a demograffeg fyd-eang yn gosod heriau newydd a chynyddol fwy i'n heconomi a'n marchnad lafur hyblyg – yna y mae'n rhaid i ni yrru ymlaen gyda diwygio pellach, gan adfywio'r bartneriaeth rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion, gan ganolbwyntio ar y 4.5 miliwn o bobl sydd o oed gweithio ar fudd-daliadau'r di-waith.

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn newid cam yn y cynhorthwy cyflogaeth a sgiliau rydym yn eu cynnig i'r rhai sydd fwyaf eu hanfantais yn y farchnad llafur. Y mae'n adeiladu ar y camau yn Deddf Diwygio Lles a gafwyd eleni er mwyn sicrhau na fydd y rhai sydd ag anhwylderau iechyd ac anableddau fyth eto yn cael eu hanwybyddu. Ac y mae'n atgyfnerthu ein hymrwymiad cryf i werthoedd cydraddoldeb a chyfle a'r egwyddor o hawliau yn gymesur â chyfrifoldebau, gyda gwaith ar gyfer y rhai sy'n medru, a sicrwydd i'r rhai na allant.

Ynghŷd â 'World Class Skills: Implementing the Leitch Review of Skills in England' a gyhoeddir hefyd heddiw, mae'r Papur Gwyrdd hwn yn disgrifio cynigion am gyfundrefn gyflogaeth a sgiliau integredig o'r newydd, gyda Bargen Newydd sydd yn fwy personoledig, hyblyg ac ymatebol sydd yn cynnig cynhorthwy newydd i rai sydd yn chwilio am waith yn gyfnewid am gyfrifoldebau newydd iddynt wneud yr hyn a allant i gynorthwyo eu hunain. Byddwn yn cefnogi'r teulu, nid yr unigolyn yn unig; a bydd cytundeb cymdeithasol newydd ar gyfer teuluoedd un rhiant yn rhoi mynd i'r afael â thlodi plant wrth graidd ein cyfundrefn lles.

Cynhelir ein cynigion gan bartneriaeth ehangach wrth galon cyflawni lles sydd yn gwneud defnydd helaethach o wybodaeth arbenigol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn genedlaethol ac yn lleol. A bydd partneriaeth ar ei newydd wedd gyda chyflogwyr, gyda Ernes Waith arloesol, newydd, a fydd yn anelu at ddarganfod cyfleoedd gwaith i dros 250,000 o bobl sydd ar hyn o bryd yn derbyn budd-dâl sydd yn barod ac yn awyddus i weithio.

Dim ond drwy gydsyniad y gellir adeiladu cyfundrefn lles llwyddiannus. Gobeithiaf y bydd pawb sydd yn rhannu'n ymrwymiad i gyflawni cyflogaeth lawn ym Mhrydain yn cyfrannu at yr ymgynghori ar y cynigion hyn.

Os gweithredwn yn awr, gallwn gyda'n gilydd, osod sylfaen ar gyfer gwaredu tlodi plant a sicrhau bod pob plentyn ym Mhrydain yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd. Nid oes rheidrwydd cymdeithasol mwy yn ein hoes – a dim gwell cyfle i'w gyflawni yn iawn.

Peter Hain
Ysgrifennydd Gwladol dros Gwaith a Phensiynau